

Meini prawf

Mae'r meini prawf yn ymwneud â chyllid cymorth a gynigir i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023-24.

Rhaid i gynigion ar gyfer cyllid cymorth ddangos sut byddai grŵp o Fyrddau yn cael eu galluogi i ddatblygu eu capasiti a'u gallu strategol er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau llesiant.

Bydd y cyllid ar gael at y dibenion canlynol a gellir ei ddefnyddio ar gyfer un neu fwy o'r meini prawf a nodir isod:

- Cryfhau'r gwaith o gynnwys y gymuned ac ymgysylltu â hi. Sicrhau bod ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau yn parhau i fod yn agwedd bwysig o waith y BGC. Nod hyn fydd annog y dull cydlynol parhaus o ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys gydag unigolion a'r holl sefydliadau yn yr ardal leol.
- Cefnogi BGC gyda'r gwaith o gynnal porth data presennol nes y bydd porth data BGC Cymru ar gael.

Trefniadau monitro a thalu:

- Rhaid i Dderbynnnydd y Cyllid Cymorth fonitro cynnydd y gwaith a ariennir er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario yn ôl y galw a bod y rheolaethau ariannol yn ddigonol.
- Rhaid i Dderbynnnydd y Cyllid Cymorth gyflwyno Adroddiad Cynnydd i Lywodraeth Cymru bob chwe mis. Bydd yn rhaid iddo ddangos y graddau y mae'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y Cynnig Cyllid Cymorth yn cael eu bodloni. Bydd hefyd rhaid iddo ddisgrifio sut y mae'r gwaith y mae'r cyllid cymorth yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer yn berthnasol i'r BGC yn fwy cyffredinol.
- Rhaid i Dderbynnnydd y Cyllid Cymorth gyflwyno cynigion erbyn **dydd Gwener 24 Chwefror 2023** gan ddefnyddio'r ffurflen cynnig yn Atodiad 2.
- Bydd y cyfnod cyllido rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 gyda'r cyllid yn cael ei dalu mewn dau randaliad ar ôl i ffurflen hawlio foddhaol gael ei llenwi.

Gweithgareddau Anghymwys:

Cynigion nad ydynt yn dangos sut y byddant yn cynnwys cymunedau ac yn ymgysylltu â nhw. Mae hyn yn golygu na fyddem yn gallu cyllido'r gweithgareddau canlynol er enghraifft:

Cymorth ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus 2023-24
Atodiad 1

- Datblygu/Darparu prosiectau cynllunio llesiant penodol a ddewiswyd gan y BGC, neu gynnal y prosiectau hynny.
- Monitro a gwerthuso gweithgaredd i ddangos tystiolaeth o ganlyniadau ac olrhain cynnydd dros amser (ac eithrio gwaith cynnal a chadw porth data).
- Cymorth partneriaeth cyffredinol.
- Cyllido swyddi cyflogedig parhaol (h.y. a ariennir drwy'r grant cymorth hwn yn unig).

Ar ôl cael Ffurflen Cynnig foddhaol sy'n bodloni'r meini prawf a nodir uchod, bydd Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr dyfarnu ynghyd â thelerau ac amodau'r cyllid.